## 4. Yr Wythnos Fawr

### Ystyr y Pasg (1)

Fel hyn yr ysgrifennodd Paul: 'y mae Duw yn dangos ei gariad tuag atom, oblegid a nyni eto yn bechaduriaid, i Grist farw trosom ni' (Rhufeiniaid 5:8). Dyna le annhebygol i neb weld cariad Duw! Onid gwadu cariad Duw y mae hyn? Y Person yma, na allai Duw ddisgwyl dim mwy gan neb nag a gafodd gan Hwn, un a fu fyw yn llwyr i Dduw ac i eraill yn dod i ddiwedd mor ofnadwy! Ymhle mae Duw, yn wir, ei fod yn gadael i'r fath beth ddigwydd? Buasech yn disgwyl i farw Iesu Grist droi ei ddisgyblion yn anffyddwyr, bod y fath dynged wedi dod i ran y fath un. Ond y gwir amdani yw mai fel arall yn hollol y bu. Trwy'r Testament Newydd rydym yn cael y bobl hyn â llawenydd yn dawnsio yn eu calonnau eu bod wedi cael Duw ac wedi gwybod sut Un ydyw, ac mai yng nghroes Iesu Grist yn anad unman y cawsant hynny.

Sut y bu hyn? Does ond un esboniad: i'r disgyblion cyntaf weld, y tu hwnt i bob amheuaeth, mai Duw ei hun oedd wedi dod atynt yn Iesu Grist. Nid ar unwaith y gwelsant hynny. Dryswch llwyr iddynt ar y dechrau oedd yr hyn a ddigwyddodd ddydd Gwener y Groglith, a ffoi o'r lle mewn dychryn a siomedigaeth chwerw a wnaethant. Pa bryd, felly, y daethon nhw i weld pwy oedd Iesu Grist? Fore'r Pasg, yn siŵr, i ddechrau, pan ddaeth Iesu Grist o'r bedd yn fyw. 'Bobol! mae'n anodd credu,' meddwch. Felly'r disgyblion hefyd. Lol i gyd ganddyn nhw oedd stori'r gwragedd ei fod wedi codi o'r bedd. A phan ddaeth Iesu atynt, tybio ddaru nhw mai ysbryd oedd. Ond bu raid iddynt gredu oherwydd bu Iesu'n mynd a dod yn eu plith am bron i chwe wythnos wedyn. Ac eto ni welodd y disgyblion cyntaf yma yn iawn pwy oedd Iesu Grist tan y Sulgwyn, saith wythnos ar ôl y Pasg. Ydych chi'n cofio beth a ddigwyddodd ar y Sulgwyn? Ie, 'tywalltiad yr Ysbryd Glân' yn iaith y Beibl. Beth oedd hynny? Hyn yn un peth (ond nid dyna'r cwbl chwaith) iddynt gael goleuni ysbrydol i wybod pwy oedd Iesu Grist a beth oedd ystyr y Groglith a'r Pasg. Duw ei hun yn ei Fab oedd y Person rhyfedd hwn ac fe fu farw ar y groes 'er ein mwyn ni' a 'throsom ni'.

### Ystyr y Pasg (2)

Nid rhyw Santa Clôs, nid rhyw wlanen o Dduw ydyw. Darllenwch chi mor llym y bu ef wrth ei genedl ei hun, ac fel mae Iesu Grist yn dweud beth oedd i ddigwydd i Jerwsalem. Os yw Duw yn berffaith dda, sut y gall beidio â bod yn erbyn pob drwg, ac yn ei erbyn yn farwol? Mae gan Dduw amynedd hir i oddef yr holl ddrwg sydd yn y byd, ond ni wna byth ildio iddo, nac ildio'r mymryn lleiaf i'r drwg yn ein bywydau ni. Pe na bai ef ddim yn ein herbyn am y pethau drwg a gwael yn ein bywyd, sut y gallai neb ei barchu fel Duw? Y sefyllfa ddrwg hon rhyngom a Duw sydd i gyfrif am yr anhapusrwydd a'r tywyllwch a'r gwacter sydd ym mywydau pobl.

Ond sut y mae croes Iesu Grist yn delio â hyn? Trwy ddangos i ni'n gyntaf mai dyma'r gwir amdanom. Nid am eu bod nhw'n waeth na ni y bu i'r Iddewon a'r Rhufeiniaid ei gasáu mor ffiaidd a chael gwared ag ef mor greulon. Pobl debyg i ni oedden nhw, yr Iddewon, yn meddwl eu bod yn bobl dda a bod Duw yn siŵr o fod hefo nhw, a'r Rhufeiniaid yn malio'r un ffeuen am y grefydd yma. Doedd yna ddim yng nghalonnau'r bobl hyn nad yw ynom ninnau: syniad da amdanynt eu hunain, ofn cael cracio plisgyn eu parchusrwydd, ofn newid, amharodrwydd i adael i Dduw fod yn Dduw yn eu bywydau, ie, gelyniaeth gudd neu agored tuag at Dduw. Mae'r groes yn ein dinoethi, yn rhwygo i ffwrdd ddillad ein clyfrwch a'n parchusrwydd. Dyna'i chymwynas gyntaf, dangos i ni'r gwir amdanom ni'n hunain.

***Emyr Roberts***